Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pencader
# Ysgol Gynradd Cae'r Felin
# Pencader
# SA39 9AA

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad gwirfoddol cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pencader sy`n gwasanaethu`r ardal hon o ogledd Sir Gaerfyrddin rhyw dair milltir o Landysul. Mae wedi'i gofrestru gyda Mudiad Meithrin ac wedi ei leoli ar hyn o bryd yn ysgol gynradd Cae'r Felin.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn hyd at 16 o blant ymhob sesiwn ac mae`r plant yn cael eu derbyn o ddwy a hanner mlwydd oed. Ar hyn o bryd mae 18 ar y gofrestr gyda 10 ohonynt yn dair oed. Mae`r holl blant hyn sy`n dair oed yn cael eu hariannu. Mae`r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd ar ddechrau'r tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod am bum bore'r wythnos yn ystod y tymor ysgol o 8.45 y.b. tan 11.45 y.b.

Daw`r plant o ardal wledig eang gyda`r Saesneg fel prif iaith y cartref yn y rhan fwyaf o achosion. Mae ychydig yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Mae dau aelod o staff llawn amser yn cael eu cyflogi. Mae ganddynt gymwysterau a phrofiad addas. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers Medi 2011.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC ym mis Tachwedd 2014, ac ym Mehefin 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae gan y lleoliad gryfderau sy`n gorbwyso meysydd i`w gwella oherwydd:

- Mae`r holl blant yn hapus i ddod i`r lleoliad ac yn setlo`n gyflym
- Mae`r holl blant yn teimlo`n ddiogel ac yn cael gofal da
- Mae`r profiadau dysgu`n ddiddori`r plant ac yn cynnwys ystod eang o brofiadau gwerth chweil
- Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn datblygu graddfa uchel o hunan-hyder ac annibyniaeth
- Mae`r lleoliad, tu fewn a thu fas yn helaeth, yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddeniadol ar gyfer y plant
- Mae`r holl blant yn cael eu hannog i fod yn iach; maen nhw`n cael byrbrydau iachus ac yn ymgymryd ag ymarfer corff rheolaidd
- Mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda

Fodd bynnag,

- Nid yw`r asesu`n rhoi darlun clir o gyflawniad a chynnydd pob plentyn
- Nid yw`r cynllunio`n darparu gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i oedran a gallu`r plant na`u herio`n ddigonol
- Mae gallu`r rhan fwya`r plant i ddefnyddio`r iaith Gymraeg yn wael
- Annigonol yw`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant
- Tanddatblygedig yw medrau gwrando lleiafrif o`r plant ac nid yw ymddygiad y plant fel grŵp yn cael ei rheoli`n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae gan y leoliad gryfderau sy`n gorbwyso meysydd i`w datblygu oherwydd:

- Mae`r lleoliad yn anelu at sicrhau bod yr holl blant yn cael gofal a chefnogaeth dda
- Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn gyfartal ac yn dangos anwyldeb tuag atynt
- Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n dda fel tîm gan ategu`i gilydd wrth redeg y lleolaid o ddydd i ddydd
- Mae`r lleoliad wedi cynhyrchu dogfen hunanarfarnu manwl ac wedi nodi meysydd i`w gwella

- Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth addas o ofynion y Cyfnod Sylfaen

Fodd bynnag,

- Nid yw`r cynllunio ar gyfer gwella`n blaenoriaethu targedau
- Nid yw`r hunanarfanu`n canolbwyntio`n ddigon da ar y safonau mae`r plant yn eu cyflawni, fel iaith Gymraeg y plant er enghraifft.

## Argymhellion

Mae angen i`r lleoliad

A1 Wella ei weithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad medrau`r plant yn glir, yn enwedig eu medrau rhifedd a chyfathrebu

A2 Defnyddio canlyniadau`r asesu wrth gynllunio fel bod y gweithgareddau`n cyfateb yn dda ag anghenion a gallu plant unigol ac i roi her addas iddynt

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i`r plant ddatblygu`u hiaith Gymraeg

A4 Gwella`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant

A5 Adolygu`r rheolaeth o ymddygiad y plant

A6 Blaenoriaethau targedau ar gyfer gwella yn y cynllun datblygu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth ddechrau yn y lleoliad, mae gan lawer o blant fedrau sydd yn llawer is na'r rhai a ddisgwylir gan blant o'r oedran hwn, yn enwedig yn eu datblygiad ieithyddol. Dros amser, mae`r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd derbyniol wrth ddysgu er bod medrau llawer yn yr iaith Gymraeg yn parhau`n annigonol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn eistedd a gwrando'n astud yn ystod cofrestru ar y dechrau ac mae llawer yn adnabod eu henwau ar blatiau enw. Mae eraill yn gwneud hyn wrth gael eu hannog i wneud. Mae gan leiafrif o blant fedrau gwrando cyfyngedig ac mae eu hymddygiad yn effeithio ar ddysgu plant eraill. Mae llawer o blant yn hyderus ac yn awyddus i rannu eu profiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn dda i dasgau a gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan ymarferwyr yn arbennig mewn sefyllfa grŵp bach. Mae llawer yn mynd at ymwelydd gyda sicrwydd ac yn cynnal sgwrs. Yn yr achosion hyn, mae tua hanner o`r plant yn siarad yn weddol glir, er yn bennaf yn Saesneg.

Mae ychydig o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau edrych arnynt gydag oedolyn. Mae llawer o blant yn mwynhau hwiangerddi a chaneuon ac yn ymuno'n frwdfrydig. Mae lleiafrif o blant yn defnyddio ystod o offer creu marciau yn annibynnol, gan gynnwys pensil i dynnu llun a sialc ar fyrddau yn yr amgylchedd allanol. Mae'r plant hyn yn dal pensiliau a sialc yn gywir ac yn deall pwrpas ysgrifennu. Mae bron pob plentyn yn paentio yn greadigol gan ddefnyddio ystod o liwiau maen nhw`n eu cymysgu`n briodol.

Mae llawer o blant yn cyfrif i 10 ar gof yn gywir ac ychydig yn rhifo`n annibynnol i 10. Mae tua hanner yr holl blant yn rhifo`n gywir i bedwar. Mae ychydig o blant yn defnyddio eu gwybodaeth o rif yn gywir mewn sefyllfaoedd go iawn fel wrth gyfrif cardiau ac wrth chwarae gyda theganau. Mae ychydig yn adnabod symiau sylfaenol o arian ac yn ymwybodol o`r defnydd sy`n cael ei wneud o arian. Mae ychydig yn adnabod siapiau dau-ddimensiwn syml ac yn dangos gwybodaeth dda o iaith fathemategol gan gynnwys "mawr, bach, tal a byr".

Mae`r plant yn defnyddio offer digidol, gan gynnwys camerâu digidol a recordwyr llais. Fodd bynnag, tanddatblygedig yw eu medrau TGCh.

Mae llawer o blant yn dangos y gallu i weithio'n annibynnol ac yn dewis eitemau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae lleiafrif yn dangos dyfalbarhad ac ymrwymiad i'r gweithgareddau maen nhw`n eu dewis. Yn y rhan fwyaf o achosion mae`r plant yn barod i rannu offer a chymryd eu tro wrth chwarae gêm gyda dis.

Mae llawer yn gweithio`n frwdfrydig pan mae diddordeb ganddynt. Mae gan lawer fedrau corfforol sydd wedi`u datblygu'n dda. Maen nhw`n pedlo ac yn symud eu beiciau tair olwyn yn fedrus ac yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth dda.

Ychydig iawn o blant sydd â medrau yn yr iaith Gymraeg sy`n datblygu`n foddhaol ac yn y mwyafrif o blant nid ydynt wedi datblygu`n ddigonol. Mae ychydig o blant yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol ac yn ymateb yn gadarnhaol. Mae`r rhan fwyaf o blant yn dod o gartrefi gyda`r Saesneg fel prif iaith y cartref ac mae`u meistriolaeth o`r iaith Gymraeg yn gyfyngedig ac mewn llawer o achosion nid yw`n bodoli bron o gwbwl. Mae geirfa Gymraeg llawer o blant yn cynnwys cyfrif ar gof ac enwi lliwiau sylfaenol yn unig.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn dangos eu bod yn mwynhau dod i'r lleoliad. Mae bron pob un yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer ac yn ymgartrefu'n gyflym i arferion sydd wedi`u hen sefydlu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda fel wrth chwarae yn annibynnol neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp bach. Mae'r mwyafrif yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau. Mae pob plentyn yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol. Maen nhw`n ymwneud yn dda â'i gilydd ac yn barod i chwarae yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, cymryd eu tro a rhannu offer chwarae. Mae ymddygiad da`r plant yn creu awyrgylch tawel, cartrefol yn enwedig pan fydd y plant yn chwarae y tu allan. Pan mae ganddynt ddiddordeb, mae llawer o blant yn medru canolbwyntio am gyfnodau sylweddol o amser.

Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol gwerth chweil. Mae`r plant yn edrych ymlaen at eu byrbryd iach ac yn hapus i eistedd yn dawel a siarad gyda'u cyfoedion ac â`r staff. Maen nhw`n ymwybodol o hylendid da drwy olchi eu dwylo cyn bwyd.

Mae sgiliau personol a chymdeithasol rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda ac mae rhieni`n adrodd bod ymddygiad cyffredinol y plant wedi gwella. Maen nhw`n hapus i gymryd cyfrifoldebau, fel tacluso a gwisgo`u cotiau cyn ymadael. Maen nhw`n trin adnoddau'n ofalus ac yn awyddus i rannu eu profiadau gyda'r arolygydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant ag amrywiaeth ddiddorol a gwerth chweil o brofiadau dysgu. Mae`r ymarferwyr yn cydweithio wrth gynllunio ac mae`r gweithgareddau yn cymryd diddordebau`r plant i ystyriaeth. Mae pwyslais priodol ar chwarae gyda'r plant yn dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Mae`r profiadau dysgu`n canolbwyntio'n briodol ar y plant yn gwneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau dosbarth cyfan yn rhoi digon o ystyriaeth i wahanol oedrannau`r plant, a`u gallu i wrando. Mae`r dogfennau cynllunio`n dangos bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Mae`r cyfleoedd dysgu`n darparu cyfleoedd i`r plant ffurfio perthynas ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn darparu plant â chyfleoedd priodol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd er bod cyfleoedd i ddatblygu eu hiaith Gymraeg yn

gyfyngedig ac yn anfoddhaol yn gyffredinol. Mae`r plant yn dysgu adnabod eu henwau trwy hunan-gofrestru bob bore. Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd digonol o Gymraeg achlysurol trwy gyfarwyddiadau a gorchmynion syml, er nad yw un o`r ymarferwyr mor hyderus â`r llall wrth siarad yr iaith. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant gymryd rhan mewn canu ystod o ganeuon Cymraeg. Mae digon o gyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu sgiliau rhifedd trwy gyfrif, didoli a grwpio gwrthrychau. Mae medrau llythrennedd a rhifedd plant yn datblygu'n briodol drwy weithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion. Nid oes digon o gyfleoedd, fodd bynnag, i ddatblygu sgiliau TGCh y plant. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n dda ac mae'r cynllunio`n annog plant i ddatblygu eu hannibyniaeth ac i arbrofi gyda syniadau newydd, fel wrth wneud pasteiod mwd.

Nid yw`r cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion gan gynnwys tasgau â ffocws, fodd bynnag, yn cymryd digon o ystyriaeth o wahanol oed a gallu`r plant. Nid yw'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant hyn yn cael eu cynllunio`n ddigonol.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen a thrwy ymweliadau â`r ardal. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y lleoliad arferion sydd wedi`u sefydlu`n dda sy'n sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn cymryd rhan weithredol, yn y dosbarth a thu allan. Mae'r berthynas rhwng ymarferwyr a phlant yn dda ac yn seiliedig ar hoffter o`i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'r Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ennyn diddordeb a chymhelliant y plant, yn enwedig yn ystod gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion. Mae adnoddau`n cael eu defnyddio'n greadigol i ddal sylw`r plant ac mae`r gweithgareddau yn cynnwys plant yn cymryd rhan weithredol, fel cyfateb maint ceir bach i fynedfeydd garej. Roedd hyn yn sicrhau hefyd fod pob plentyn, yn ei dro, yn cymryd rhan. Yn yr achosion hyn, roedd y plant yn gweithio mewn grwpiau bach yn cael eu rheoli'n dda a`r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynu`n dda i ddatblygu medrau meddwl y plant.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion a`u dewis gan y plentyn. Mae digon o gyfleoedd i blant ddewis gweithgareddau ac i weithio'n annibynnol ac mae`r oedolion yn gwybod pryd i ymyrryd. Mae`r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac mae hyn yn ffurfio rhan bwysig o weithgareddau bob bore.

Nid yw`r ymarferwyr bob amser yn cyfateb gweithgareddau i allu`r plant a chyflawniad blaenorol. Yn yr achosion hyn nid yw`r plant mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol. Nid yw'r gwaith yn cael ei wahaniaethu'n ddigonol, fel er enghraifft i ddatblygu iaith Gymraeg y plant ar lefel briodol.

Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae eu cyrhaeddiad yn cael ei gofnodi. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ffotograffig o waith y plant ar draws holl feysydd y

cwricwlwm. Mae'r ymarferwyr yn adnabod gallu'r plant yn dda ond nid yw eu cyflawniad, o ran datblygu sgiliau, yn cael ei nodi ar y dystiolaeth ffotograffig. Mae datblygiad sgiliau plant unigol yn cael ei nodi yn dilyn tasgau â ffocws ac mae hyn yn darparu cofnod gwerthfawr o ran, er enghraifft medrau rhifedd y plant. Fodd bynnag, nid yw`r cofnodion hyn yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus gyda chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi iechyd a lles plant. Mae`r plant yn cael eu hannog i fwyta'n iach, i ofalu am eu hylendid personol ac i wneud ymarfer corff. Mae`r plant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gweithredu'n unol â hynny.

Mae`r profiadau dysgu yn llwyddo i feithrin profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae`r arferion dyddiol, fel amser byrbryd, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig, fel amynedd, gan eistedd yn briodol wrth y bwrdd a sgwrsio gyda ffrindiau. Mae hefyd yn eu dysgu i gydweithio â'u cyfoedion ac i fod yn annibynnol. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd hefyd yn llwyddo i annog gwerthoedd pwysig, fel gonestrwydd, tegwch, parch ac ymdeimlad o`r hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn trin adnoddau gyda pharch ac yn tacluso yn ofalus. Mae dathlu gwyliau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn helpu`r plant i ddeall yn well y byd maen nhw`n byw ynddo.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i alluogi plant i ddechrau gwerthfawrogi pwysigrwydd ailgylchu deunyddiau. Mae bwyd gwastraff yn cael ei gadw ar gyfer bwyd anifeiliaid, mae papur gwastraff yn cael ei gasglu ac mae`r plant yn ymwybodol o beidio gadael tapiau i redeg yn ddiangen. Mae hadau a phlanhigion yn cael eu tyfu mewn compost ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd i blant ddysgu i ofalu am bethau byw.

Mae'r lleoliad yn le diogel. Nid oes unrhyw berson yn medru dod i mewn yn ddirybudd ac ni all unrhyw blentyn adael heb ganiatâd. Mae`r ymarferwyr yn gwybod pwy sy`n casglu bob plentyn. Mae'r tu allan wedi ei amgylchynu gan ffens fetel ddiogel ac mae`r plant yn cael eu goruchwylio ar bob adeg. Mae`r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau perthnasol ac maen nhw`n ymwybodol o'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad bolisïau a phrosesau digonol ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cymorth proffesiynol ar gael os oes angen. Nid oes yr un plentyn sy`n bresennol ar hyn o bryd wedi ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol lle mae`r holl blant yn cael eu hannog i drin ei gilydd yn deg. Mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i ddarpariaeth y lleoliad. Mae`r plant yn teimlo'n hapus ac yn hyderus ac yn barod i rannu adnoddau gyda'i gilydd ac yn ddigon hyderus i siarad gyda'r arolygydd.

Ar y cyfan, mae cyflenwad digonol o adnoddau sy`n briodol ar gyfer oedran y plant ag o ansawdd da ar gyfer cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae`r adnoddau ar gyfer darparu plant â digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau TGCh yn gyfyngedig.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr – mae`r arweinydd yn cael ei chefnogi gan ei chynorthwy-ydd ac yn ystod yr arolygiad roedd myfyriwr yn bresennol ar leoliad. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n galed i greu amgylchedd dysgu cyffrous ar gyfer y plant. Mae'r tu fewn wedi`i wahaniaethu i ardaloedd o weithgareddau i gefnogi`r dysgu. Mae`r adnoddau yn hygyrch i`r plant ac mae`r arddangosfa o waith y plant yn cael ei defnyddio'n dda i wella'r amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, nid oes digon o anogaeth i blant ddefnyddio'r ardal dan do ac yn enwedig i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a rhifedd. Nid yw`r plant yn cael eu hannog yn ddigonol i ddefnyddio'r gornel ddarllen, y bwrdd ysgrifennu na`r adnoddau rhifedd.

Mae`r lleoliad yn rhan o'r ysgol gynradd. Mae wedi ei gynnal yn dda gydag ardal allanol mawr sy`n ddiogel. Mae`r tu allan yn hygyrch yn uniongyrchol o'r ystafell addysgu sy`n galluogi`r plant i chwarae y tu allan a dod i mewn yn ôl eu dymuniad. Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod hwn sy`n galluogi`r plant i ehangu eu profiadau, fel gweithgareddau dŵr a chwarae, tyfu planhigion ac i ddatblygu eu medrau corfforol gan ddefnyddio teganau ar olwynion. Mae`r plant yn mwynhau`r chwarae rhydd yn yr ardal hon ac mae`r gweithgareddau`n cael eu cynllunio`n briodol i wneud y mwyaf i ddatblygu medrau corfforol y plant.

Mae'r ardal y tu allan yn ddiogel ac yn cynnwys adran chwarae meddal mawr, ynghyd ag ardal o laswellt ar gyfer gweithgareddau. Mae`r plant bob amser yn cael eu goruchwylio'n a`u cefnogi`n dda. Mae ymweliadau achlysurol â'r ardal leol, gan gynnwys y parc lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r lleoliad yn cyflawni ei nodau o sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal da, yn cael eu cefnogi a'u parchu fel unigolion. Mae pwyslais cryf ar sicrhau lles plant. Mae`r plant yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael anwyldeb priodol yn ôl yr angen. Mae'r plant yn hapus ac yn awyddus i fod yn bresennol. Mae'r berthynas rhwng plant a rhwng y plant a'r ymarferwyr yn dda ac mae`r plant yn gwybod pwy i fynd atynt os oes angen help arnynt.

Mae`r ddau ymarferydd yn gweithio'n galed ac yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r ddwy yn cydweithio wrth gynllunio ac mae'r profiadau dysgu`n ddiddori`r plant. Fodd bynnag, nid yw`r gweithgareddau`n cael eu gwahaniaethu'n ddigonol i ystyried anghenion dysgu penodol y plant. Mae`r asesu`n tueddu i fod yn ddisgrifiadol a dim ond yn achlysurol mae`n nodi cyflawniad plant unigol, fel eu medrau rhifedd. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio`n bwrpasol wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Nid yw oedran a gallu gwahanol y plant yn cael digon o ystyriaeth wrth gynllunio gweithgareddau grŵp, fel amser stori pan fydd rhai plant yn methu gwrando hyd yn oed am gyfnodau byr o amser. Mae ymddygiad

gwrthgymdeithasol o'r fath yn anfantais i blant eraill ac nid yw'n annog y plant hŷn a mwy galluog i gymryd rhan weithredol ac i feithrin medrau gwrando da.

Nid yw'r lleoliad yn elwa o bwyllgor rheoli cryf a chefnogol. Mae'r cyfrifoldeb am rediad esmwyth y lleoliad ac atebolrwydd yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar yr arweinydd a'i chydweithwraig. Nid yw`r rhieni, tra'n gwerthfawrogi agosatrwydd staff y lleoliad, yn gwneud llawer i gefnogi'r lleoliad yn ymarferol. Mae`r ymarferwyr yn awyddus i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant ac ar hyn o bryd mae'r deilliannau ar gyfer y plant yn dda o ran eu lles a'r gofal a'r cymorth sy`n cael eu darparu ar eu cyfer.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae`r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso staff yn cwrdd â gofynion ac mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae`r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol ac mae'r rhain o fudd i'r plant.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff priodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n agos gyda'i gilydd yn rhannu syniadau ac yn chwilio am ffyrdd o wella'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar les plant. Mae`r ymarferwyr wedi datblygu amser byrbryd i fod yn achlysur cymdeithasol da lle mae`r plant yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb ac i ymddwyn yn synhwyrol. Mae hon yn enghraifft dda o sut mae`r plant hyn yn ymateb i weithgareddau sydd wedi`u strwythuro'n dda.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae'r arweinydd wedi cynhyrchu dogfen hunanarfarnu manwl a defnyddiol sy`n nodi cryfderau`r lleoliad a meysydd ar gyfer datblygu. Mae ffynhonnell y dystiolaeth a'r camau i'w cymryd yn cael eu hamlygu, er nad yw ei gysylltiad â'r cynllun datblygu bob amser yn glir. Yn y rhan fwyaf o achosion mae`r cynllun datblygu yn tynnu sylw at yr effaith arfaethedig ar safonau`r plant ond mae`r targedau a'r gwelliannau arfaethedig yn helaeth ac nid ydynt wedi`u blaenoriaethu.

Mae`r ddogfen hunanarfarnu wedi nodi'r angen i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iaith Gymraeg y plant. Nid yw`n glir sut mae hyn yn mynd i`w gael ei gyflawni ac mae hyn yn parhau i fod yn angen parhaus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn defnyddio rhan o adeilad yr ysgol gynradd gyda mynediad uniongyrchol i ystafell y dosbarth derbyn. Mae`r plant yn y lleoliad yn gyfarwydd â staff yr ysgol ac yn mynychu amryw o weithgareddau`r ysgol, fel cyngherddau ysgol. Mae hyn yn gwneud y trosglwyddiad i'r dosbarth derbyn yn hawdd i'r plant.

Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi dylanwad y lleoliad ar ddatblygiad eu plentyn, gan gynnwys eu medrau personol a chymdeithasol. Maen nhw`n gwerthfawrogi'r cyswllt

anffurfiol gyda staff a'r wybodaeth maen nhw`n ei derbyn cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad.  Fodd bynnag, ychydig iawn mae`r rhieni yn cyfrannu o ran cefnogi'r lleoliad neu gymryd rhan wrth gefnogi dysgu eu plentyn, er gwaethaf pob anogaeth i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plentyn.

Mae cysylltiadau da yn eu lle gydag athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin.  Mae hon yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor a chymorth, ond heb gael digon o effaith ar gyflawniad a chynnydd y plant.

Mae partneriaethau cymunedol yn anffurfiol ond yn galluogi`r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o bobl sy'n eu cynorthwyo yn y gymuned.  Mae'r arweinydd yn ymwybodol o'r cymorth mae`r awdurdod lleol yn darparu os oes unrhyw blentyn yn cael ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o staff ac adnoddau i gefnogi`i gyflwyniad o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r adnoddau yn hygyrch i blant.  Mae`r plant yn gwybod ble maen nhw`n cael eu storio ac yn ystod yr arolygiad, roedd llawer o blant wedi cael eu gweld yn chwilio a dod o hyd i`r hyn oedd angen arnynt yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd.

Mae`r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol priodol ac mae'r rhain wedi gwneud cyfraniad gwerth chweil i'r ddarpariaeth a chyflawniad a lles y plant.  Mae`r staff yn rhannu eu gwybodaeth broffesiynol ac mae hyn yn effeithio`nn dda ar ddarpariaeth y lleoliad ar gyfer lles plant.  Nid yw`r strategaethau ar gyfer bodloni anghenion plant o wahanol alluoedd ac ar gyfer datblygu eu hiaith Gymraeg wedi'u datblygu'n llawn.

Mae proses effeithiol ar waith ar gyfer adolygu gwariant ac mae'r gyllideb yn cael ei rheoli'n effeithlon.

Ar y cyfan, o ystyried y deilliannau sy`n cael eu cyflawni gan y plant a'r diffygion sydd wedi`i nodi, bernir bod y lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |